OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 442

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020

## RHAN 3

### Gofynion ynglŷn â chyfarfodydd

**Dyddiad ac amser cyfarfodydd eraill**

**9.**—(1) Caniateir cynnal cyfarfod y mae'n ofynnol, yn rhinwedd deddfiad neu offeryn arall, i awdurdod lleol ei gynnal cyn 1 Mai 2021 ar unrhyw ddiwrnod ac ar unrhyw amser cyn 1 Mai 2021 y mae'r awdurdod lleol yn ei bennu (pa un a yw'n ddarostyngedig i unrhyw ofynion eraill ai peidio o ran pryd y mae rhaid ei gynnal).

(2) Yn y rheoliad hwn, nid yw "cyfarfod" yn cynnwys cyfarfod blynyddol—

(a) prif gyngor;

(b) cyngor cymuned;

(c) awdurdod Parc Cenedlaethol.